Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Owain Lloyd
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Cyngor Sir Gâr
Adran Addysg a Phlant
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

10/07/2025

Annwyl Owain Lloyd

Ymweliad estynedig ACALl: Mehefin 2025

Ar 24 – 26 Mehefin 2025, cynhaliodd Lyn West AEF a dau gydweithiwr sy'n AEF ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, a ganolbwyntiodd ar ddatblygu'r cwricwlwm a moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- gyfarfod â chi fel y Cyfarwyddwr Addysg, yr uwch dîm a swyddogion perthnasol
- cyfarfod â'r Prif Swyddog Gweithredol ac arweinydd y cabinet
- cyfarfod â phenaethiaid ac arweinwyr
- craffu ar ddogfennau

Gobeithiwn y bu'r ymweliad hwn yn ddefnyddiol i chi a'ch tîm gwasanaethau addysg. Isod, ceir crynodeb o'n canfyddiadau.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Maes ffocws 1

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu a chyflwyno cyfleoedd dysgu cwricwlaidd effeithiol, gan sicrhau eglurder a diben dysgu o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16 sy'n galluogi'r holl ddysgwyr ifanc a disgyblion i wneud cynnydd i'w llawn botensial?

Cryfderau

- Mae swyddogion, gan gynnwys ymgynghorwyr cymorth addysg o'r gwasanaeth gwella ysgolion, yn cynnig ystod eang ac addas o wasanaethau sy'n cefnogi ac yn herio ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm.
- At ei gilydd, mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth gadarn o'r arferion sy'n cael eu mabwysiadu mewn ysgolion, gan ddefnyddio ystod o ddata a gwybodaeth yn effeithiol yn rhan o'u gwerthusiadau. Maent yn myfyrio ar strategaethau sydd wedi gweithio'n dda a'r rhai a fu'n llai llwyddiannus o ran eu heffaith ar ddisgyblion a dysgwyr.
- Mae swyddogion yn cynnig cymorth ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth o ran addysgu, dysgu a datblygu'r cwricwlwm. Mae'r ychydig o arweinwyr a staff ysgolion y gwnaethom gyfarfod â nhw yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu ar gyfer dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm.
- Mae'r awdurdod yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ysgolion a lleoliadau rannu arferion datblygu cwricwlwm effeithiol trwy rwydweithiau, cyfarfodydd clwstwr, digwyddiadau pwrpasol a thrwy blatfform digidol uchel ei barch.
- Roedd yn ddiddorol clywed bod yr awdurdod yn gweithio ag arweinwyr i gryfhau cydweithio trawsgyfnodol ac adeiladu ar y gwaith defnyddiol o fewn clystyrau. Roeddem yn cytuno â'r awdurdod mai dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.
- Ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ceir cydweithio cryf a sefydledig. Rydym yn cytuno â'r awdurdod lleol bod angen cryfhau cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog sydd â chweched dosbarth.
- Mae ystod o ddysgu proffesiynol perthnasol ar gael i staff drwy'r gwasanaeth 'Partneriaeth' mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei arlwy, gan arwain at raglen ddiwygiedig sy'n mynd i'r afael yn fwy priodol â rhai anghenion cymorth ar gyfer pynciau penodol.
- Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu sylfaen gref i gefnogi cyflwyno profiadau dysgu dilys, fel sydd i'w weld trwy fentrau fel y grŵp gweithredu ar yr hinsawdd mewn lleiafrif o ysgolion. Mae'r grŵp hwn yn darparu llwyfan gwerthfawr ar gyfer llais y disgybl, gan alluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd, cyfrannu at benderfyniadau, datblygu medrau datrys problemau a dylanwadu ar brofiadau dysgu ystyrlon ar draws y cwricwlwm.

Ystyriaethau

- Sut ydych chi'n sicrhau bod gan bob cynllun feini prawf llwyddiant manwl a chamau gweithredu clir i alluogi swyddogion i werthuso'n union effaith gwaith eu timau ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc?
- A yw pob swyddog yn rhannu dealltwriaeth glir a chyson o 'effaith' darpariaeth? Sut gellir cryfhau'r broses o nodi enghreifftiau penodol o effaith mewn ysgolion?
- Sut gall swyddogion gryfhau'r gwaith gyda grwpiau clwstwr i nodi agweddau penodol ar addysgu, cwricwlwm ac arweinyddiaeth y mae angen i swyddogion eu targedu i gefnogi gwella ysgolion? Er enghraifft, a ydych chi wedi ystyried canolbwyntio ar flaenoriaeth genedlaethol fel darllen?
- A ydych wedi ystyried creu adroddiadau thematig ar flaenoriaethau cenedlaethol penodol i ddarparu dadansoddiad clir o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ysgolion a lleoliadau yn yr awdurdod?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ddealltwriaeth glir o sut maent yn disgwyl i ddisgyblion ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws a thrwy'r cwricwlwm?
- Sut gallwch chi gryfhau'r cymorth ymarferol i wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu yn y cyfnod uwchradd er mwyn sicrhau y caiff cwricwlwm effeithiol ei gyflwyno?
- Sut byddwch chi'n parhau i sicrhau bod eich gwelliannau i'r cwricwlwm yn mynd rhagddynt ar gyflymder da?
- I ba raddau ydych chi'n rhannu arfer orau yn yr awdurdod ac yn dysgu oddi wrth arfer mewn awdurdodau eraill? Sut gallwch chi gymhwyso'r dysgu o arfer orau i gefnogi arweinyddiaeth a darpariaeth?
- Sut gall yr awdurdod lleol sicrhau y gall disgyblion ar draws Sir Gâr fanteisio ar gyfleoedd dysgu dilys perthnasol?

Maes ffocws 2

Canfu arolygiad 2023 fod oedi wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys ar ôl ymgynghoriadau ffurfiol, yn golygu nad oedd yr awdurdod wedi mynd i'r afael â'i gynlluniau i ad-drefnu a moderneiddio addysg yn llawn. Ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth ei Rhaglen Moderneiddio Addysg. Pa gynnydd a wnaed er 2023?

Cryfderau

- Mae gan awdurdod lleol Sir Gâr weledigaeth sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer ei raglen moderneiddio addysg ac ad-drefnu ei ysgolion. Mae gan yr awdurdod gynllun strategol addas ar gyfer moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion, sydd wedi'i seilio ar egwyddorion ac amcanion cadarn ac yn cefnogi ystod o amcanion lleol, cenedlaethol, corfforaethol ac addysgol yn briodol. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu nod yr awdurdod i sefydlu rhwydwaith o ysgolion a lleoliadau sy'n bodloni anghenion dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol a chymunedau lleol.
- Mae'r tîm moderneiddio ysgolion yn cynnig cymorth i swyddogion eraill ac aelodau etholedig ar faterion yn ymwneud â'r strategaeth. Maent yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth a data yn briodol i nodi blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion ac i gefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol, yn ôl yr angen.
- Mae'r awdurdod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol cynyddol y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn diffygion ariannol ysgolion, sy'n bryder cynyddol.
- Mae'r awdurdod hefyd wedi cadarnhau bod oedi wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys ar ôl ymgynghoriadau ffurfiol, wedi golygu nad yw wedi mynd i'r afael â'i gynlluniau i ad-drefnu a moderneiddio addysg i'r graddau sydd eu hangen.

Ystyriaethau

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod cyflymder y newid yn cynyddu er mwyn sicrhau camau gweithredu i ad-drefnu a moderneiddio addysg yn llawn?
- Sut bydd aelodau etholedig yn cefnogi'r awdurdod lleol i wneud penderfyniadau anodd ynghylch ad-drefnu ysgolion mewn modd amserol?
- Sut bydd swyddogion yn cydweithio ag aelodau etholedig i sicrhau bod penderfyniadau ad-drefnu strategol yn lleddfu'r pwysau ariannol cynyddol sy'n peri risg sylweddol i'r awdurdod yn well?
- Sut bydd yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig yn sicrhau bod gostyngiad yn nifer yr ysgolion sydd â nifer sylweddol o leoedd dros ben?
- I ba raddau y mae elfennau o'r strategaeth, cynlluniau a chynigion yn dangos yn glir effaith fwriadedig ad-drefnu ar ddeilliannau dysgwyr? Er enghraifft, a yw ymadroddion fel 'Dyheu am' yn rhwystro cynnydd, o bosibl?
- A ydych yn teimlo bod ychwanegu 'Cam 0' at y broses yn rhwystro cyflymder gwelliant? Sut gallwch chi liniaru hyn?

Diolch yn fawr am hwyluso'r ymweliad ac edrychaf ymlaen at drafod datblygiadau'r ddau faes ffocws hyn gyda chi a'ch cydweithwyr yn fy ymweliadau cyswllt yn y dyfodol.

Yn gywir,

Lyn West
AEF
Estyn